
**ADRAN A**

1 Pa un o'r symiau hyn sydd ddim yn rhoi'r ateb 39?

a) $100 - 61$ b) $273 \div 7$ c) $3 \times 13$ ch) $4 + 9 \times 3$ d) $3^3 + 12$

2 Y rhif ym mhob bloc yw cyfanswm y ddau rif oddi tano.





Faint yw'r rhif A?

a) 53 b) 61 c) 68 ch) 73 d) 84

3 Mae paralelogram wedi'i rannu'n ddwy ran, *S* a *T*, fel yn y diagram. Pa un o'r datganiadau yma sydd yn bendant yn wir?

a) Mae perimedr *S* yn hafal i berimedr *T*
b) Mae arwynebedd *S* yn llai nag arwynebedd *T*
c) Mae perimedr *S* yn hirach na pherimedr *T*
ch) Mae arwynebedd *S* yn hafal i arwynebedd *T*
d) Mae perimedr *S* yn fyrrach na pherimedr *T*




4 Ystyr 2 Θ 4 yw treblu 2 a thynnu 4, sef ateb o 2. Faint yw gwerth 5 Θ 6?

a) 4 b) 5 c) 6 ch) 7 d) 9


5 Wrth osod y rhifau hyn yn eu trefn, pa un sydd yn y canol?

a) eich oed mewn dyddiau
b) taldra eich athro mewn cm
c) eich pwysau mewn gramau
ch) maint eich esgid
d) nifer y gwersi mewn diwrnod ysgol

6 Y diwrnod sydd dau ddiwrnod ar ôl y diwrnod cyn heddiw yw dydd Llun. Pa ddiwrnod yw hi heddiw?

a) Sadwrn b) Sul c) Llun ch) Mawrth d) Mercher

7 Mae pob un o'r pum blwch hyn yn cynnwys rhif. Rhestrir y rhifau yn ôl eu trefn gyda'r rhif lleiaf yn y blwch ar y chwith. Canolrif y rhifau yw 9; y modd yw 10; yr amrediad yw 8 a'r cymedr yw 7. Faint yw'r rhif A?





a) 3 b) 4 c) 5 ch) 6 d) 7

8 Mae 40 disgybl yn nosbarth Mr Puw. Gofynnodd Mr Puw i'r disgyblion os oedd ganddynt frawd hŷn neu chwaer iau. Mae gan 26 disgybl frawd hŷn ac mae gan 13 disgybl chwaer iau. Nid oes gan 10 o'r disgyblion frawd hŷn nag ychwaith chwaer iau. Faint o'r ddisgyblion sydd â brawd hŷn ond nad oes ganddynt chwaer iau?

a) 4 b) 6 c) 17 ch) 23 d) 36


9

Mae gan y ciwb hwn chwe wyneb ond dim ond pump ohonynt sydd i'w gweld heb godi'r ciwb o'r bwrdd. Mae 10 ciwb yn cael eu gosod ar ben ei gilydd i ffurfio tŵr tal. Sawl wyneb ciwb sydd i'w gweld?



a) 36 b) 40 c) 41 ch) 50 d) 60

10 Mae'r diagram yn dangos dau gylch newn petryal sy'n mesur 6cm wrth 10cm. Faint mewn centimetrau yw'r pellter rhwng canol y cylchoedd?



a) 2 b) 3 c) 4 ch) 12 d) 16

11 Mae Ann, Beti a Carol yn cyfrif eu harian.
Gyda'i gilydd mae gan Ann a Beti £4.87
Gyda'i gilydd mae gan Beti a Carol £7.13
Gyda'i gilydd mae gan Ann a Carol £6.38
Faint o arian sydd gan y tair ohonynt gyda'i gilydd?


a) £9.19 b) £12.00 c) £13.51 ch) £18.38
d) mae angen mwy o wybodaeth

*Ysgol*: ........................................................................ *Dosbarth*: ...................................

*Enw*: ........................................................................................................................

**ADRAN B**

1 Ystyriwch y patrwm hwn o sgwariau:




Beth yw cyfesurynnau canol sgwâr 1? **Ateb** ( , )
Beth yw cyfesurynnau canol sgwâr 2? **Ateb** ( , )
Beth yw cyfesurynnau canol sgwâr 3? **Ateb** ( , )
Beth yw cyfesurynnau canol sgwâr 30? **Ateb** ( , )

Dychmygwch fod y patrwm o sgwariau yn cael ei ymestyn i'r chwith:

... −2, −1, 0, 1, 2, 3, ...


Beth yw cyfesurynnau canol sgwâr −1? **Ateb** ( , )
Beth yw cyfesurynnau canol sgwâr −15? **Ateb** ( , )

Beth yw cyfesurynnau canol yr n<sup>fed</sup> sgwâr?


2 Mae 6 phetryal yn y diagram 1 × 3 hwn:




sef:
1 fel hyn




2 fel hyn:




a 3 fel hyn:



Sawl petryal sydd yn y diagram 1 × 2 hwn? **Ateb** ________




Sawl petryal y tro hwn? **Ateb** ________




Beth yw'r patrwm? ______________________________________________________

______________________________________________________________________


Mae 9 petryal yn y diagram 2 × 2 hwn:



Sawl petryal sydd yn y diagram 2 × 3 hwn? **Ateb** ________



Sawl petryal y tro hwn? **Ateb** ________



Beth yw'r patrwm? ______________________________________________________

______________________________________________________________________

Heb dynnu llun, cyfrifwch sawl petryal sydd mewn patrwm
a) 3 × 5 **Ateb** ________
b) 5 × 10 **Ateb** ________